# Cyfarfod Rhif 11 Grŵp Ecosystemau Arfordirol PBC, Mehefin 3ydd 2014, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

**Yn bresennol**: Mike Howe (CNC) Cyd-gadeirydd; Emmer Litt (CNC) Cyd-gadeirydd; Sean McHugh (PBC); Rick Park (CNC); Olivia Burgess (Ystadau'r Goron); John Clark (Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB Cymru); Heather Lewis (CNC); Duncan Ludlow (CNC); Mike Bailey (CNC); Angus Garbutt (y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg); Steve Chambers (Llywodraeth Cymru); Sue Byrne (CNC)

**Ymddiheuriadau**: Jane Hodges (APC Arfordir Penfro); Matty Murphy (CNC); Mark Winder (CDS Abertawe); Quentin Grimley (CNC); Chris Wynne (Ymddiriedolaethau Natur Cymru); Nick Edwards (CNC); Kirsty Lindenbaum (CNC); Shelagh Malham (Prifysgol Bangor); Pippa Moore (Prifysgol Aberystwyth); Kate Collins (CNC); Julie Creer (CNC)

1. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

   Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ionawr 2014 fel rhai cywir.

2. Roedd Rick Park, rheolwr cenedlaethol creu cynefinoedd gyda CNC ac Olivia Burgess, Rheolwr Polisi Morol gydag Ystadau'r Goron, yn bresennol a rhoddodd y ddau gyflwyniad.

3. Diweddariadau Grŵp. Mae disgwyl i'r adroddiad ar 'Gofnodi newidiadau amgylcheddol arfordirol' fod ar gael ym mis Gorffennaf. Mae CNC yn llunio'r adroddiad ar hyn o bryd i'w gyflwyno i LlC – cafodd yr adroddiad penawdau ymateb cyflym ar seilwaith/amddiffynfeydd arfordirol ei gynhyrchu'n gynharach yn y flwyddyn a chylchredodd Emmer Adroddiad Cam 2 Adolygiad Llifogydd Arfordirol Cymru. Diolch i bawb o'r Grŵp am eich mewnbwn hyd yma. Roedd Heather Lewis, Arbenigwr Ecoleg Arfordirol yn CNC yn bresennol yn y cyfarfod a bydd yn arwain ynghyd â Julie Creer ar yrru gwaith y grŵp ymlaen. Julie sy'n arwain ar dwyni tywod, clogwyni meddal a graean bras â llystyfiant, gyda Heather yn arwain ar forfeydd heli a chlogwyni caled. Dywedodd John Clarke (RSPB Cymru) wrth y grŵp fod ei sefydliad ef yn gweithio gyda CNC ar brynu safle ger Twyn sy'n cynnwys cynefinoedd twyni tywod a graean bras.

4. Bylchau Tystiolaeth. Mae angen i'r Grŵp adolygu a mireinio'r gwaith ar fylchau tystiolaeth i gyd-fynd â'r seminar gwanwyn i Academyddion a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Oherwydd gwrthdaro yn y dyddiadur ni fu'n bosib i'r Grŵp fynd i'r seminar. Disgwylir adroddiad yn yr wythnosau i ddod ac mae'r gwaith ar y bylchau tystiolaeth wedi'i restri ar wefan PBC http://www.biodiversitywales.org.uk/1/cy-GB/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth

5. Cronfa Natur £6m. Roedd Mike Howe ac Olivia Burgess yn bresennol yng ngweithdy'r gronfa natur yng Nghyffordd Llandudno a chyflwynodd rhai aelodau o'r Grŵp brosiectau arfordirol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cysylltu â phob sefydliad a gyflwynodd brosiectau i'w hysbysu o'r camau nesaf. Bydd y pwyslais ar brosiectau aml-bartner cydweithredol yn saith Ardal Weithredu Byd Natur. Mae'r cynigion prosiect a'r wybodaeth ategol i gyd ar gael i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. Dolen: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?skip=1&lang=cy

6. Adroddiadau Erthyl 17. Mae matrics i asesu cyflwr rhywogaethau a chynefinoedd sy'n nodweddion ACA ar gael oddi ar wefan JNCC http://jncc.defra.gov.uk/page-6397. Anogwyd aelodau'r grŵp i

astudio yr adran ar Gymru yn yr adroddiad. Os yw'r aelodau am iddo wneud hynny, gall Mike Howe grynhoi'r wybodaeth ymhellach.

**7.** Symposiwm Clogwyni Môr, Medi 2013. Bydd trafodion y Symposiwm yn ymddangos yn y *Journal of Coastal Conservation* a Mike Howe yn anfon dolen at y trafodion pan fydd ar gael.

**8.** Mapiau Cynefin â Blaenoriaeth. Mae mapiau a chrynodeb cysylltiol ar gael am dwyni tywod, morfeydd heli, clogwyni caled a meddal morol oddi ar http://www.biodiversitywales.org.uk/1/cy-GB/Arfordirol ac mae haenau GIS ar gael oddi wrth CNC. Mae angen adolygiad mapio gan ei integreiddio â gwaith i fapio rhostir a glaswelltir yr iseldir yn arbennig er mwyn hybu cysylltedd a phrosiectau ar lefel y dirwedd. Bydd Heather Lewis a Julie [cyfenw] yn symud y gwaith hwn ymlaen.

**9.** Cynllun gwaith/aelodaeth y Grŵp. Mae cynllun gwaith y Grŵp Ecosystemau Arfordirol wedi cael ei ddiweddaru a'i ymestyn tan 2016 a chaiff ei adolygu yn y cyfarfod nesaf. Rhestr aelodau'r Grŵp – bydd Mike ac Emmer yn dechrau ar y gwaith hwn cyn ei drosglwyddo i Heather a Julie.

**10.** Sesiwn Creu Cynefinoedd Arfordirol

Cafodd y Grŵp ddau gyflwyniad, un gan Rick Park a'r llall gan Olivia Burgess.

**Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd, Rick Park, CNC**

Rhaglen yw hon sydd wedi'i bwriadu i sefydlu cynefinoedd newydd i wneud iawn am gynefinoedd gwarchodedig sy'n cael eu colli oherwydd y wasgfa arfordirol. Nod y rhaglen yw creu cynefin gwneud-iawn tebyg am debyg drwy drosi tir i gynhyrchu cynefinoedd newydd fel morfa heli. Maes o law, caiff y cynefinoedd newydd a grëir eu dynodi'n ACA ac AGA yn ogystal â darparu amddiffyniad i gymunedau ar yr arfordir.

Cyd-destun y Wasgfa Arfordirol: Gwasgfa arfordirol yw'r broses lle mae cynefinoedd rhyng-lanw yn crebachu'n gynyddol yn eu harwynebedd ac yn peidio â bod yn weithredol pan gânt eu dal rhwng lefelau môr uwch ac amddiffynfeydd sefydlog neu dir uchel.

CNC sy'n arwain ar y gwaith yng Nghymru gyda chymorth amryw o bartneriaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, Ystadau'r Goron a mudiadau trydydd sector. Mae angen Asesiad Cynefinoedd pan fydd amddiffynfeydd arfordirol yn rhan o safleoedd Natura 2000 ac mae'r rhaglen hon yn fesur strategol i ymdrin â lliniaru rhag pwysau mawr erbyn 2015. Mae amddiffyn pobl ac eiddo yn elfen bwysig o'r gwaith yn ogystal â gwneud iawn am gynefin arfordirol a gollir. Defnyddiwyd cynnydd o 80cm yn lefel y môr yn y 100 mlynedd nesaf fel llinell sylfaen er mwyn allosod yr effeithiau tebygol ar arfordir Cymru. Gwastadeddau tywod, gwastadeddau llaid a morfeydd heli yw'r cynefinoedd mwyaf tebygol o gael eu creu yn ystod y rhaglen, a hynny fel arfer ar gymhareb 1:3. Defnyddir cost creu cynefin o £50-100 mil yr hectar fel trothwy wrth benderfynu cychwyn prosiect. Caiff safleoedd posib a'r lefelau digolledu eu hamlinellu yn y cyflwyniad, yn ôl y cyfnodau amser a nodwyd. Erbyn 2025, bydd angen 784 Ha o gynefin rhyng-lanw digolledu. Sylwch: mae colledion cynefin ACA/AGA Moryd Hafren (679Ha) wedi'u cynnwys yng nghyfanswm 2025 ac mae 2/3 o'r ffigur hwn yn cyfeirio at Loegr. Rhoddir senarios colledion cynefin ar gyfer 2055 a 2105 hefyd.

**Tywodweddu yn y DU: Cyflwyniad i fframwaith SuCCESS, Olivia Burgess, Ystadegau'r goron**

Mae tywodweddu yn golygu 'gweithio gyda natur' i:

- Gefnogi amddiffynfeydd rhag llifogydd ar ffurf twyni
- Cyflenwi gwaddodion yn raddol i'r naill ochr a'r llall
- Cynnal arbrofion ar raddfa fawr i reoli'r arfordir mewn ffyrdd arloesol
- Creu cynefinoedd newydd – uwchlaw ac o dan y dŵr
- Creu cynefinoedd wedi'u trawsnewid drwy ailalinio arfordirol

Nod y prosiect yw sicrhau hyder a buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol tymor hir i gymunedau arfordirol gyda risg minimal gan ddefnyddio technolegau sydd wedi'u profi. Y cam presennol – syniadau cynnar; arloesi yw'r grym gyrru; cydweithio; a herio canfyddiadau pobl

Rhagwelir y bydd i'r prosiect oes o 20 mlynedd ac mae astudiaeth beilot ar waith yn yr Iserldiroedd ar hyn o bryd; caiff y canlyniadau rhagarweiniol eu rhyddhau yn 2016. Fel arfer, ffynhonnell y tywod/graean bras a ddefnyddio i 'dywodweddu' yw deunydd sy'n cael ei garthu o'r môr.

SuCCESS ('*Sustainable Coastal Communities through coastal Engineering and Sandscaping*') – hanfod y cynllun yw galluogi cymunedau arfordirol cynaliadwy trwy lywodraethu a meithrin gallu, gan seilio hynny ar ecosystemau iach. Mae Ystadau'r Goron mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru, CNC ac awdurdodau lleol i greu fframwaith a meini prawf er mwyn asesu a yw cynllun yn ddichonadwy. Awgrymwyd grŵp llywio, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, asiantaethau statudol, awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol, cwmnïau peirianyddol ac academyddion. Mae Ystadau'r Goron wrthi'n gweithio ar astudiaethau dichonoldeb yn Lloegr ar hyn o bryd ac yn sefydlu cysylltiadau yng Nghymru er mwyn 'cychwyn y sgwrs' ac asesu dichonoldeb.

Cafwyd derbyniad da i'r ddau gyflwyniad gan y rhai a oedd yn bresennol. Nodwyd y byddai cefnogaeth wleidyddol yn dyngedfennol i sicrhau llwyddiant.

### 11. Ymweliadau Maes â Thwyni Ynyslas ac afon Leri

Cyflwynodd Mike Bailey, Uwch Reolwr y Warchodfa yn Ynyslas, y grŵp i'r warchodfa. Mae twyni Ynyslas, Cors Fochno a Moryd Dyfi i gyd yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Dyfi. Ymwelwyd â thwyni tywod Ynylas ac amryw o fannau gweld i gael sylwi ar y cynefinoedd twyni tywod a gwastadeddau tywod. Mae twyni tywod Ynyslas yn gorwedd ar grib o raean bras ac mae egin-dwyni, blaendwyni a thwyni sefydlog i gyd yn cael eu cynrychioli yma. Mae llaciau twyni i'w gweld yma hefyd. Mae'r cynefinoedd twyni yn Ynyslas yn bwysig i greaduriaid di-asgwrn-cefn a ffyngau ac maent yn gyrchfan gwyliau a hamddena lewyrchus. Cyflwynwyd defaid i bori yn y gaeaf yn y rhan ganol lle mae'r llystyfiant ar y twyni'n gordyfu. Ym mhen deheuol y rhwyngwyneb rhwng y twyni a'r foryd, mae morfa heli'n cronni. Wedyn teithiodd y grŵp y siwrnai fer at afon Leri i weld cynefinoedd cymysg yn cynnwys ardal ar gyfer cynefin digolledu posib (morfa heli) i'r dwyrain o'r afon. Mae cryn lawer o seilwaith yn yr ardal hefyd, yn cynnwys rheilffordd a llinellau pŵer, sy'n dangos y sialensiau a wynebir o ran rhoi cynlluniau cynefin digolledu ar waith. Bydd ar seilwaith tyngedfennol angen cynlluniau amddiffyn arfordirol eilaidd i'w gwarchod rhag y môr wrth i'r lefel godi ac mae hynny'n ychwanegu at gymhlethdod prosiectau posib.



Egin-dwyn yn Ynys Las



Twyn sefydlog yn Ynys Las



Aelodau'r Grŵp yn Ynyslas



Aelodau'r Grŵp ar safle afon Leri

Diolch yn fawr i Mike Bailey a thîm Ynys Las am groesawu'r cyfarfod ac am yr ymweliad maes. Diolch hefyd i Rick Park ac Olivia Burgess am eu cyflwyniadau llawn gwybodaeth.

**12. Unrhyw Fater Arall**

Cynhelir Symposiwm yr EUCC yng ngogledd Ffrainc, 17-19 Mehefin 2014, i edrych ar Reolaeth Integredig ar Dwyni Tywod. Mae Mike Howe yn gobeithio bod yn bresennol a bydd yn adrodd yn ôl i'r Grŵp. Mae ceisiadau WREN a SITA am waith i ailfywiogi twyni tywod wedi cael eu cyflwyno a disgwylir penderfyniadau'r paneli tua diwedd Mehefin/dechrau Gorffennaf.

**13. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Mae'r grŵp yn gobeithio cynnal cyfarfod ym mis Rhagfyr 2014, manylion pellach i ddilyn.

**Camau Gweithredu**

| Rhif | Camau Gweithredu | Pwy | Erbyn | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | £6 Cronfa Adfer Natur | PAWB | Tach 1af | Mae manylion y gronfa a sut mae gwneud cais i'w gweld ar wefan LlC: http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/nature-fund/?skip=1&lang=cy |
| 2 | Prosiect Bylchau Tystiolaeth PBC | PAWB | Cyfarfod gaeaf 2014 | Adolygu'r wybodaeth i ganfod bylchau a chyflwyno prosiectau posib. Mae manylion y bylchau tystiolaeth a'r cynigion prosiect ar wefan PBC. Dolen: http://biodiversitywales.org.uk/1/cy-GB/Prosiect-Bylchau-Tystiolaeth |
| 3 | Adroddiadau Erthygl 17 | PAWB | Cyfarfod gaeaf | Adolygu'r adran benodol ar Gymru yn yr adroddiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 2014 | http://jncc.defra.gov.uk/page-6397 |
| 4 | Ceisiadau am arian i brosiectau ailfywiogi twyni | MH | Awst | Mike i adrodd yn ôl i'r Grŵp ynglŷn â chanlyniad y ceisiadau am arian (SITA a WREN).<br><br>Diweddariad: Cais llwyddiannus i Ymddiriedolaeth SITA – mae CNC wedi sicrhau £150 mil ar gyfer gwaith yng Nghynffig, Merthyr Mawr a Thywyn Niwbwrch y gaeaf hwn. |
| | | | | |
| **Camau Gweithredu Blaenorol – y diweddaraf** | | | | |
| | Ardaloedd â blaenoriaeth graean arfordirol â llystyfiant | | Parhaus | Roedd Peter Rhind yn gweithio ar hyn ond ni allodd ei gwblhau. Bydd tîm arfordirol CNC yn symud hyn ymlaen. |
| | Gweithdy Twyni Tywod Dylid sicrhau bod y trafodion ar gael | MH | | Nid yw'r trafodion ar eu gwedd derfynol nac wedi'u cyhoeddi eto. |
| | Integreiddio mapiau Cynefin â Blaenoriaeth | | Parhaus | Bydd tîm arfordirol CNC yn symud hyn ymlaen. |
| | Cynllun gwaith y Grŵp<br><br>Aelodaeth y Grŵp | Pawb | | Y Grŵp i adolygu'r Cynllun a'i drafod yng nghyfarfod gaeaf 2014.<br><br>Mike ac Emmer i edrych yn fanwl ar gynrychiolaeth CNC. Sean i adolygu aelodaeth LBAP a LlC. Bydd Chris yn cysylltu â'r Ymddiriedolaethau Natur i geisio dirprwy gynrychiolydd. |
| | Prosiect arfaethedig symudiadau a hydroleg twyni tywod yn Llangynydd. | EL | Gaeaf 2014 | Bydd Emmer yn ymchwilio ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp yn y cyfarfod nesaf. |
| | Symposiwm Clogwyni Môr | MH | | MH i gylchredeg trafodion y symposiwm pan fyddant ar gael |
| | Cynhadledd Rheolaeth Integredig ar Dwyni Tywod | MH | | MH i gylchredeg trafodion y symposiwm pan fyddant ar gael |